Cyfres Llanbedr | Mawrth, 1928 | Cyf. 28. Rhif 3.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

# Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y Golygydd. — Y Parch T. Oswald Williams

## — Cynnwys. —

Nodiadau'r Golygydd.
Breuddwyd a Gweledigaeth.
Hen a Newydd.
Pobl Sir Gar.
Tw'r Ddrama.
Cyhoeddiad Newydd.
Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi

Argraffwyd gan J. D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

# YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

*Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.*

*Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.*



**Mynnwch gael yr Argraffiad Newydd o**

## "TELYN DEWI,"

SEF GWAITH PRYDYDDAWL

**Y Parch. DAVID DAVIS, o Gastell Hywel.**

CYFROL DLWS.—Pris 3s. 6c. ; drwy'r Post, 3s. 10c.

**Anfoner i SWYDDFA'R YMOFYNNYDD, LLANDYSSUL.**

## CHANNING HOUSE SCHOOL

**HIGHGATE, LONDON, N.6.**

Public School for Girls.

FEES 130 GUINEAS.

**For Particulars apply to THE HEAD MISTRESS.**

## T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

**Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.**

# *Yr Ymofynnydd.*

- - Cylchgrawn Misol - -
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Cyfres Llanbedr. MAWRTH, 1928. Cyf. XXVIII. Rhif 3.

## *Nodiadau'r Golygydd.*

Y MAE'R cedyrn yn cwympo. Ddoe y cefnodd Hardy a Haig. Heddiw y mae Asquith mewn bedd ac nid oes neb yn amau na cherfiodd ei enw yn ddwfn ym mywyd y genedl. Yr oedd yn un o wyr mawr ei oes, nid yn gymaint fel gwladweinydd bellach ond fel un a fedrai'r iaith Saesneg tu hwnt i neb o'i gyfoeswyr, ac fel gwr bonheddig. Chwaraewyd **Asquith.** llawer ar y geiriau *Wait and See.* Erbyn heddiw y mae amser yn dywedyd wrth ei gyfoeswyr *Wait and See,* a mynnir y bydd ei le'n ddiogelach na nemor un a fu yn yr Armagedon. Ni chredaf fod neb wedi darlunio'i fywyd yn well nag ef ei hun pan siaradai yn Aberdeen yn 1910,—

"Cedwch gyda chwi, lle bynnag y bo eich llwybr, gwmni meddyliau mawr, ysbrydoliaeth delfrydau mawr, esiampl gorchestion mawr, cysur methiantau mawr. Wedi eich cymhwyso felly, medrwch wynebu heb aflonyddwch meddwl gernodiau amgylchiadau, mympwy ffawd, neu gyfnewidiadau anchwiliadwy bywyd."

Yn haf 1925 bum yn gwrando arno'n traddodi darlith Essex Hall "Some phases of Free Thought in England in the Nineteenth Century." Ni chymerodd olwg lydan ar ei destun, ond gwelid ei fod yn ben crefftwr ar iaith. Ni ddeliodd ond a Robert Owen, William Cobbett a Malthus a cheir awgrym y ddarlith yn y paragraff clo,—

"Vigilance is the price which we have to pay for liberty; but so long as thought and speech are free, the text, which Bacon took for his motto, will continue to be verified by the experience of mankind:—

'*Multi pertransibunt et augebitur Scientia.*'"

Daeth dau gyhoeddiad i'm llaw a chredaf y teilynga Cymdeithas Undodaidd De Cymru ein llongyfarchiadau gwresocaf ar ei misolyn newydd. Y mae'n ddolen gydiol rhwng eglwysi'r gymdeithas. Fe'i hadolygir yn y rhifyn hwn gan arall. Y cyhoeddiad arall yw "The Los Angeles Unitarian." Nid yw ddim amgen na phamphledyn yn croniclo gweithrediadau The First Unitarian Church, 2936 West Eighth St., Los Angeles, Calif., gyda rhyw fraslun o fywyd Theodore Parker. Yma dywedir gwahodd Parker yn wr ieuanc 31 oed i bregethu mewn ordeiniad gweinidog yn South Boston a'i destun oedd "The Transient and the Permanent in Christianity." A chaewyd pulpudau'r enwad iddo ym Moston oherwydd ei ystyried yn heretic ac yntau'n mynnu dywedyd "*Nid awdurdod i wirionedd* ond *gwirionedd yn awdurdod.*"

**Dau Gyhoeddiad.**

O'i gau allan felly, penderfynodd nifer o wyr ieuanc y cai Parker gyfle i gael ei glywed ym Moston ac yn fuan iawn yr oedd y gynulleidfa'n rhifo tair mil gyda saith mil ar y llyfrau ac yno bu am bedair blynedd ar ddeg nes torri o'i iechyd. Gwnaeth fwy nag odid neb ym mrwydr rhyddhau'r caethion. Yr oedd Lincoln yn darllain ei gyhoeddiadau a thalodd y gwrogaeth uchaf iddo drwy fenthycia un o'i froddegau, a'i hanfarwoli yn yr Anerchiad yng Ngettysburg, "government of the people, by the people, for the people."

Anfonwyd y Los Angeles Unitarian imi gan un a eilw ei hun yn "*Hen aelod o'r Llwyn,*" a diddorol oedd clywed oddiwrtho er na wn pwy ydyw a gwybod fod 32 o achosion Undodaidd yng Nghalifornia.

* * *

Y mae'r Perlau Moliant newydd bron yn barod a sicr fod disgwyl mawr amdano yn yr eglwysi. Yn ystod y mis darllenais farnu llym ar rai Llyfrau Emynau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac ni ellir ond dychmygu y sydd yn aros y Perlau, ond yn y rhifyn nesaf fe'm gorfodir i ddadlennu'r cyfan a wn am fwrw allan "*Brondeifi*" a "*Llanio.*" Nid wyf i gerddor, na mab i gerddor. Ni fedraf basio barn arnynt. Ni'm siomwyd yn y Pwyllgor. I'm tyb i y mae coffa'r ddau awdur yn annwyl gan lu, a chredaf eu bod yn teilyngu gwneuthur ohonom hyn iddynt, a gwnawn gam a mi fy hun onid adroddaf y cyfan yn onest heb ofalu am fympwy na gwg neb. Y mae rhagor na'r ddwy don a chario pwynt yn y cwestiwn—y mae'n gwestiwn o *honour.* Nid oes dim am dani felly ond

**Y Perlau Newydd.**

"Y gwir yn erbyn y byd."

# *Breuddwyd a Gweledigaeth.*

AR ol iddynt gael eu halltudio'n hir o frodir addysg a bywyd, y mae'r ddau hyn yn dychwelyd i'w gwlad. Prawf hyn mai nid arnynt hwy y bu'r bai am iddynt orfod ymadael o'r tir y buont yn byw hired ynddo ; ond ar y trigolion na wyddant y gwahaniaeth rhwng y gau a'r gwir. Dyna hanes y byd erioed, ac nid oes brinder ar enghreifftiau o ddynion goreu'r ddinas dan farn condemniad, a than orfod ymadael am wlad estron, tra'r oedd eu barnwyr yn cael byd da ac helaethrwydd beunydd, beunos, er na safent i'w cymharu a'r rhai nad oedd ganddynt le i roi eu pennau i lawr.

Megis a wnaed a dynion glew a da, felly y gwnaed hefyd a gallu-oedd a nerthoedd dynion. Mewn oes faterol ni roddwyd lle i freuddwyd nac i weledigaeth. Rheswm oer oedd frenin, ac ni chafwyd yn ei deyrnas rwysgfawr a chyfoethog le o gwbl i'r ddau druan hyn. Ni chawsent le nac yn nheml addysg nac ym mhorth diwylliant. Y gred oedd mai perthyn i fabandod y ddynoliaeth yr oeddent, ac nid cyfreithlon oedd rhoddi iddynt le na pharch wedi i'r ddynoliaeth roddi heibio bethau bachgennaidd.

Gwelwyd mwy nag un alltud yn dychwelyd i'w ddinas gynhefin gydag urddas brenin. Y mae barn gwlad yn newid gydag amser ; a'r hyn a fu gynt yn ysgumbeth a edrychir arno gyda syndod a rhyfeddod mawr. Ar ol yr holl wawd a dirmyg a roddwyd ar freuddwyd a gweledigaeth, ac er iddynt gael eu hysgymuno o deml addysg, wele ddydd newydd yn gwawrio, a'r ddau alltud yma yn cael dod adre yn swn bendith archoffeiriaid addysg a moes. Ac nid dod yn ol eilwaith i garchar ac i ddirmyg, ond yn hytrach rhoddir iddynt y lle blaenaf bron yn y temlau y bu rhaid iddynt ffoi am eu heinioes o honynt. Nid yw yn weddus, bellach, siarad ond yn weddus am freuddwyd a gweledigaeth ; oherwydd yr hyn a fendithia athroniaeth, ni thal i neb son am danynt ond gyda pharchus ofn a mwyn weddeidd-dra. Pa beth a wnai eneinieg ddiweddar heb esboniad y ddau hyn ar fywyd ? Y mae tro ar fyd—o fod gynt yn dda i ddim ond i gadw dyn yn faban, y mae breu-ddwyd a gweledigaeth yn awr ymhlith yr unig bethau a esbonia fywyd dyn. " Psycho-analysis "—dyna air mawr dewin y dyddiau diwethaf hyn. Esbonia hyn bobeth ond efe ei hun. A pha beth a fyddai " psycho-analysis " onibai am freuddwyd y sydd yn anadl ac yn fywyd ynddo ! Beth am gloddwyr y " tan-ddaearolion bethau," a'r rhai y sydd wedi cymryd yr " isymwybyddiaeth " yn diriogaeth dewisol iddynt ? (chwedl yr addfwyn Anthropos).

Y mae pethau wedi newid, er gwell er gwaeth. A wrthodir gan un oes a dderbynnir gan oes arall, megis y try hereticiaid un oes yn seintiau oes arall. Breuddwyd a gweledigaeth y sydd yn awr mewn bri.

Nid oes a fynnwyf yn bresennol a'r ddysgeidiaeth newydd, er na charwn fod yn anfoesgar iddi. Os ceir o hyd i lo i gynhesu bywyd, neu o hyd i aur i ymlid ymaith dlodi bywyd, ymysg y "tan-ddaearolion bethau," ni fydd nac Anthropos na minnau yn ddig wrth y cloddwyr. Ond meddwl a wnes am frawddeg y proffwyd Ioel pan soniai am y dyddiau diwethaf—"tywalltaf o'm hysbryd ar bob cnawd." Yn y dyddiau hynny "eich henafgwyr a freuddwydiant freuddwydion, a'ch gwyr ieuanc a welant weledigaethau." Yr oedd gan Ioel le i freuddwyd ac i weledigaeth yn ei fywyd ac yn ei grefydd, ac nid oedd mor hen ffasiwn ag a garai'r bobl fawr gynt ini gredu.

Breuddwyd a gweledigaeth, henafgwyr a gwyr ieuanc—dyna'r pethau a dyna'r bobl hefyd. Y mae gan yr hen broffwyd le i hen wr yn y byd, ac i wr ifanc hefyd; y mae ganddo le i freuddwyd ac i weledigaeth. Rhyfedd mor "modern" y mae'r hen broffwyd wedi mynd! Hwyrach ei fod eto ar y blaen i'r rhai na chredant ond yn un o'r ddau ddosbarth hyn.

Gesyd Ioel y breuddwyd i'r hen, a'r weledigaeth i'r ifanc. Felly y mae'n oreu, profiad i'r hen a gobaith i'r ifanc. Bywyd gwael ydyw'r bywyd nad oes ynddo brofiad; bywyd dall ydyw'r bywyd nad oes ynddo obaith. Byd gwag a byd dall ydyw'r byd nad oes ynddo henafgwyr yn breuddwydio, a gwyr ieuanc yn gweld gweledigaethau. Y mae lle i'r ddau; y mae pwrpas i'r ddau.

Gwendid yr hen yn aml yw ei fod am ddiystyrru'r ifanc; gwendid yr ifanc yw yn rhy aml yw ei fod yn ddiamynedd gyda'r henafgwr. Ni rydd yr hen le i weledigaeth; ac ni fynn yr ifanc mo'r breuddwyd. Byw yn hannerog y mae'r ddau felly. Y mae bywyd un yn wag o sylwedd, a bywyd y llall yn amddifad o oleuni. Nid oes gan y naill fawr o ffydd yn y weledigaeth; ac ni fynn y llall roddi coel yn y byd ar y breuddwyd. Ond y mae'r proffwyd yn dweyd bod i'r ddau o honynt le a diben yn y dyddiau diwethaf hyn. Ni fedr nac eglwys na byd wneyd heb yr hen a'r ifanc. Ni fedrant esgeuluso na breuddwyd na gweledigaeth. Y mae a fynno eglwys a byd a'r gorffennol ac a'r dyfodol.

Yr hen a freuddwydia. Naturiol hynny. Yr ifanc a wel weledigaeth; naturiol hyn hefyd. Edrych yn ol a wna breuddwyd; edrych ymlaen a wna gweledigaeth. Hoff gan henafgwr ydyw

edryeh yn ol ar hyd y llwybrau a gerddwyd gynt ; melys gan yr ifanc yw edrych ymlaen ar hyd llwybrau newydd na thramwyodd neb ar hyd-ddynt o'r blaen. Y mae un yn rhoi esboniad ar fywyd, a'r llall yn rhoi ysbrydiaeth i fywyd. Rhaid i fywyd wrth esboniad ac wrth ysbrydiaeth. Pa werth ydyw bywyd os nad oes esboniad arno a diben iddo ? Pa werth ydyw bywyd os nad oes ynddo ragor nag a gafwyd eto ? Beth yw ystyr a fu, a pha beth yw golud a ddaw ? Gwaith yr henafgwr ydyw esbonio yr oes a fu ; gwaith yr ifanc ydyw datguddio yr oes a ddel.

Edrych yn ol y mae breuddwyd ; edrych ymlaen a wna gweledigaeth. Ni fedr neb freuddwydio ond am y pethau a fu, y pethau a ddaeth yn rhan o'i brofiad. Yn y gorffennol y mae seiliau pob math ar freuddwyd. Allan o ffeithiau bywyd, allan o ddeunyddiau profiad, allan o fyd anelwig yr isymwybyddiaeth y mae breuddwydion yn codi. Y mae'r drefn ar bethau, a'r wedd arnynt hefyd, yn wahanol yn aml mewn breuddwyd i'r hyn a fu mewn profiad. Ond yr un ydyw'r pethau yn eu natur. Edrych yn ol ar brofiadau bywyd a wna breuddwyd ; teithia'n ol ar hyd llwybrau'r gorffennol gan fyw eilwaith yr hyn a fu. Daw geiriau Gwilym Marles (" Dro yn Ol ") yn rhwydd i'r meddwl pan yn son am edrych yn ol :—

" Mae llu o fyfyrdodau bore
Yn rhuthro'n dyrfa i fy mron.
Mae'r niwloedd pell yn cilio ymaith.
Diflanodd ugain mlynedd gron."

Hawdd ar brydiau ydyw edrych yn ol. Cymer y meddwl adenydd y nos ac yn ol yr a ar hyd y llwybrau gynt. Naturiol yw i henafgwr dreulio llawer o'i amser yn y gorffennol—y mae yn breuddwydio breuddwydion. Bro'r freuddwyd ydyw ei diriogaeth ; yno y mae'n gartrefol.

Ond nid digon breuddwydio breuddwyd, y mae angen ei ddehongli. Y mae gan bob henafgwr ei freuddwyd ; ond nid oes gan bawb esboniad arni. Y mae ei gwerth yn ei esboniad ar bethau a fu. Nid esbonio'r dyfodol yw gwaith breuddwyd ; ond esbonio yr hyn a fu, a'r hyn y sydd. Eiddo arall y dyfodol. Gŵyr profiad yn iawn am ddeugain mlynedd mewn anial dir ; ond wrth edrych yn ol mewn breuddwyd—mewn myfyrdod—y gwelir amcan a phwrpas y crwydro hir. Dyna waith yr henafgwyr. Eiddo iddynt yr esboniad ar bethau a fu, ac ar bethau y sydd. Disgwylir iddynt roi ini athroniaeth pethau a fu, ac athrawiaeth pethau y sydd. O gael eu hesboniad ar y gorffennol ; o gael eu rhesymau dros y pethau y sydd, dysgwn ddiben troion yr yrfa. Dysgwn hefyd ba lwybrau y mae yn ddiogel i obaith gerdded ar hyd-ddynt, a pha lwybrau y mae yn well ini eu hangofio.

Eiddo'r ifanc y weledigaeth, am mai iddo'r dyfodol. Datguddio'r pethau a fydd ar ol hyn—dyna waith y weledigaeth. Esbonio taith yr anialwch a wna profiad ; gweld gwlad y Ganan hyfryd y mae y gobaith. Edrych yn ol y mae breuddwyd ; edrych ymlaen y mae gweledigaeth. Y mae ymhob dyn brofiad a gobaith ; y mae ymhawb yr henafgwr a'r gwr ifanc. Heb brofiad y mae bywyd yn ddiystyr ; heb obaith y mae'n ddall. Y breuddwyd a rydd yr esboniad ; y weledigaeth a rydd y goleuni. Esboniad yw un ar fywyd ; ysbrydiaeth yw'r llall i fywyd.

Rhaid i'r ifanc fod yn amyneddgar gyda'r hen ; rhaid i'r hen fod mewn cydymdeimlad a'r ifanc. Y mae bywyd yn ymestyn ymlaen ac yn ol. Os eiddo un yw cyfandiroedd y gorffennol, eiddo arall yw gwledydd y dyfodol. Ni thal i'r naill fod yn ddiystyr o'r llall. Llawn mor bwysig ydyw pob un o'r ddau.

Ni fu gennyf ffydd erioed yn y bobl y sydd am ddechreu popeth o'r newydd, gan ddiystyru'r hen bethau. Cawn air yn " Llyfr y Datguddiad " a ddywed " Wele, yr hen bethau a aethant heibio ; gwnaethpwyd popeth yn newydd." Medr Duw wneud hyn, am nad oes iddo na gorffennol na dyfodol. I ddynion y sydd yn byw o ddydd i ddydd, nid oes modd gwneud popeth o'r newydd gan ddiystyru'r hen bethau. Ni raid ini gredu bod popeth hen yn dda ; ac ni raid credu ychwaith fod popeth hen yn ddrwg. Gadawn yr hyn y sydd yn ddrwg ynddo, a daliwn yr hyn y sy'n dda. Ar sylfaen yr hen yr ydym yn adeiladu'r dyfodol. Mae angen esboniad ar yr hen bethau ini weld pa sut i adeiladu'n ddoeth y dyfodol.

Nid yw peth yn ddrwg am ei fod yn newydd ; ac nid ydyw o angenrheidrwydd yn dda ychwaith. Y mae'r weledigaeth yn barod i dderbyn hyfforddiant oddiwrth y breuddwyd ; megis ag y gwna dyn ifanc doeth wrth droed henafgwr. Ond os na ddysg gwr ifanc bethau na wybu ei dadau, nid yw fawr o glod iddo. Os ydym am fod gymaint a'n tadau, rhaid ini fod yn fwy na hwynthwy. Rhaid ychwanegu golud y weledigaeth at eu hathroniaeth hwy ar fywyd.

Ni fu ynnof erioed fawr o barch at y bobl nad oedd yn eu bywyd le i bethau newydd. Os ydyw ambell un yn caru edrych yn ol, a chadw ei wyneb ar wlad machlud haul, nid oes gennyf wrthwynebiad iddo. Eiddo ef ei ddewis. Ond os ydyw am i minnau hefyd edrych i'r un cyfeiriad ag ef, gan wrthod imi'r hawl i edrych ymlaen, y mae gennyf gŵyn yn ei erbyn. Y mae'r dyfodol imi mor sicr ag ydyw'r gorffennol iddo ef ; ac os ydyw yn ymhyfrydu yn ei freuddwyd, yr ydwyf am lonydd i ymhyfrydu yn y weledigaeth. Bydd yn hyfrydwch mawr gennyf eistedd wrth ei draed,

os oes ganddo esboniad i'w roddi ar hanes y gorffennol ; carwn iddo yntau hefyd dderbyn rhyw gymaint o hyfrydwch wrth wrando arnaf yn traethu am y pethau a fydd ar ol hyn. Derbyniaf yn ddiolchgar bob cyfarwyddyd erbyn y llwybrau newydd, y mae ef yn gyfarwydd a theithio, a minnau heb fod ; ond os ydyw am imi fod yn dawel a chredu nad oes gan yr ifanc yr un etifeddiaeth, dywedaf wrtho yr adnod honno yn dawel, dirion—"Eich henafgwyr a freuddwydiant freuddwydion, a'ch gwyr ieuanc a welant weledigaethau." Ni raid i fywyd fod yn dlawd. Paham rhaid iddo fod yn ddall ? Esboniad ar yr hen, a goleuni ar y newydd—dyna addewid Ioel. 'Rwy'n caru'r hen broffwyd, am ei fod mor ifanc.

*Y Caerau, Maesteg.* W. EDWARDS.

# *Hen a Newydd.*

DENGYS yr ystadegau diweddaf fod cyfartaledd oedran dynion ym Mhrydain yn uwch nag y bu. Cwestiwn hollbwysig i Gwmniau Yswiriant yw hwn : Pa nifer o flynyddau y gellir disgwyl y bydd dynion byw ? Peth hollol ansicr yw hyd oes dyn unigol. Ond os cymerir myrdd neu filiwn o ddynion, gellir cyfrif, ar sail ystadegau cywir a chedyrn, y bydd hyn a hyn farw dan ugain mlwydd oed ; hyn a hyn dan ddeugain, hyn a hyn dan driugain ; ac felly yn y blaen. Yn ystod y ganrif ddiweddaf, darfu i'r cyfartaledd godi, yn raddol ac yn barhaol. Dengys y daflen ganlynol nifer y blynyddau y gellid disgwyl i wrrywod fyw mewn gwahanol gyfnodau :—

| *Cyfnod* | *Blynyddau* |
|---|---|
| 1834—54 ... ... | ... 40 |
| 1871—80 ... ... | ... 41 |
| 1881—90 ... ... | ... 43 |
| 1891—1900 ... ... | ... 44 |

Yn awr, y mae'r cyfartaledd yn uwch nag erioed—sef tua 56 o flynyddau.

Mae benywod, ar gyfartaledd, yn cael byw yn hwy na gwrrywod i fesur pedair neu bump o flynyddau. Yn ol y meddygon y mae amryw achosion i hyny. (1) Y mae benywod, wrth natur, yn gallu gwrthsefyll afiechyd yn well na gwrrywod. (2) Y maent yn llai agored i ddamweiniau ynglyn a'u gwaith. (3) Y mae peryglon

esgor yn lleihau o flwyddyn bwy gilydd oherwydd cynnydd gwybodaeth a medr meddygon a bydwragedd.

Un achos o'r ychwanegiadau parhaol at nifer blynyddau yw lleihad dirfawr yn nifer y plant ieuainc sydd yn marw. Gwell magwraeth, ar sail gwell gwybodaeth a medr ; bwyd mwy maethlon, glanweithdra mwy gofalus a chyson—dyna sy'n cyfrif am y gwelliant.

Cyn pen can mlynedd eto, os ceir cyffelyb gynnydd mewn gwybodaeth, medr a dirwest, fe gyfyd cyfartaledd oes i 80 neu 90 ; a miloedd o bobl yn cyrhaedd oedran o 120 neu 130.

* * *

Sêl ! Derbyniodd trysorydd Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr yn ddiweddar rodd o 525p. yn un swm. Pan oedd y rhoddwr yn wr ieuanc, penderfynodd fyned yn genhadwr i Affrica. Ond oherwydd amgylchiadau'r teulu, lluddiwyd ef. Arhosodd gartref ; a phenderfynodd y rhoddai efe elw ei fasnach i'r Gymdeithas, er mwyn anfon ereill yn genhadon, gan nad allai efe fyned ei hunan. Eisioes, y mae ei roddion wedi cyrhaedd i 37,575p.

* * *

Hoff gan ddynion digrif yw chwedlau am gybydd-dod a chrintachrwydd yr Ysgotiaid. Un desgrifiad poblogaidd o'r Ysgotyn yw hwn : "Dyn sy'n cadw'r Saboth a phob peth arall y gall ddodi ei law arno." Rhyfedd braidd, fod yr Ysgotiaid wedi cael y fath air ; canys y mae ei haelioni at achosion da o bob math yn ddiarhebol. Yn bur ddiweddar hysbysodd Pennaeth Prifysgol St. Andrews fod rhyw gymwynaswr, a ddymunai fod yn ddienw, yn cynnyg rhodd o gan mil o bunnau at wasanaeth yr Athrofa. Bwriadai neillduo 40,000p. i sefydlu ysgoloriaethau gwerth 100p. y flwyddyn i'w dal am bedair blynedd gan efrydwyr a geisient radd fygedol. Mynegodd y Prifathro ym mhellach fod ereill wedi cyfranu symiau llai—5,000, 12,000p. a 20,000p. Chware teg ynte i'r Ysgotiaid ! Rhoddant esiamplau gwych i gyfoethogion Lloegr a Chymru.

* * *

Mae'r bobl ffroenuchel sy'n honni gwybod pa sawl miliwn o flynyddau sydd wedi myned heibio er's pan ddechreuodd bywyd ar y ddaear,—yn ymdroi mewn trybestod parhaus. Mawr yw y ffwdan am y pethau a gloddiwyd yn ddiweddar yn Glozel yn Ffrainc. Myn rhai mai *sham* a ffug yw y pethau a geibiwyd o'r

pridd ; ond y mae creill, mor ddysgedig a hwythau, yn parhau i daeru dilysrwydd y darganfyddiadau. Os cywir yw haeriadau yr olaf, rhaid fydd i'r gwyddonwyr ail-bobi eu hathrawiaethau. Dangosent fwy o ddoethineb, pe byddent yn fwy gochelgar a llai cegog wrth son am eu "modern science." Nid helynt Glozel yw yr unig beth sy'n creu trybestod. Caed yn ddiweddar i Amgueddfa South Kensington ddarn o graig o Finland ; a dywedir gan rai "experts" fod y telpyn yn "brawf" (neu o leiaf "braw") fod bywyd ar y ddaear amryw flynyddau—nage, amryw filiynau o flynyddau—yn gynt nag y tybient. Hym !

* * *

Un o'r sylweddau rhyfeddaf yn y byd yw radium. Mae Sir E. Rutherford, wedi bod yn ei astudio er's rhai blynyddau ; ac mewn darlith ddiweddar, bu'n traethu am rai o'i weddnodau. Mae tri math o belydrau (hyny yw, bid siwr, "math ar belydrau") yn tasgu allan yn barhaus o'r sylwedd hwn ; a gelwir hwynt "alpha," "beta," "gamma." Telir y sylw pennaf i'r "alpha" ; a thybir taw dyna'r pelydrau pwysicaf. Mae cyflymder y pelydrau hyn yn anhygoel ac annirnadwy—*deng mil o filldiroedd mewn un eiliad* ! Yr ydys yn ceisio defnyddio yr "alpha" i ddadansoddi yr "atom." Gynt, credai'r fferyllwyr mai yr "atom" oedd y "pendraw" : ac na ellid ei hollti. Ond yn awr, yr ydys yn ei "elfennu" ; a'r athrawiaeth unfrydol yn awr yw fod atom pob rhyw sylwedd yn cynnwys :—(1) craidd (yn y canol) ; (2) nifer o "electrons" yn chwyldroi am y craidd ; a nifer o electrons yn cyfateb a phwys yr atom.

* * *

Yr oedd alchemistiaid y Canol Oes yn credu y gellid trawsffurfio sylweddau—y gellid troi plwm yn aur, er enghraifft, pe ceid gafael ar "garreg yr athronydd." Hyd yn ddiweddar, yr oedd fferyllwyr yr oes hon yn poeri gwawd ar y syniad hwn. Ond y mae'r don wedi newid. Eisioes, yr ydys wedi gallu trawsffurfio deuddeg o sylweddau drwy ddefnyddio yr "alpha." Beth wneir tybed, pan geir gafael ar yr "omega" ? A phwy sydd yn myned yn mlaen i hollti craidd yr atom a gosod ffrwyn yn safnau yr electrons ?

* * *

Yn y mor sy'n amgylchu Awstralia, y mae heidiau o forgwn rheibus. Y maent yn byw ar bysgod ; ac i ddynion a fo'n ymdrochi ar y traeth, y maent yn wir beryglus. Ymwthiant o ddwfr bas agos i'r lan ; gafaelant mewn ymdrochydd, llusgant ef allan i'r dyfnder, a bwytant ei gorff. Mae rhai ohonynt yn anferthol eu

maint—dros ddeugain troedfedd o hyd! Ond y mae dyn wedi benodi i arglwyddiaethu ar bysgod ysglyfaethus y mor. Yr ydys wedi ffurfio cwmni i hela "sharks": ac i wneyd elw ohonynt. Mae'r cwmni wedi prynu llong haiarn, magnelau, peiriannau blingo, berwedyddion ac felly yn y blaen. Bwriedir dal a thrin cant o forgwn bob dydd. Ohonynt ceir lledr, olew, cig, gwrtaith, ac amryw sylweddau defnyddiol ereill. Honir fod yr olew yn feddyginiaeth ragorol at anhwylderau yr afu. Byddai costrelaid ohono bob bore cyn brecwast yn lles mawr i olygydd y ..... !*

* * *

Yn y Rhyfel Mawr, collodd Ffrainc agos i ddwy filiwn o'i meibion —mwy o nifer na holl boblogaeth Cymru. O'r herwydd, mae'r canlyniadau yn flinderus i'r eithaf. Un o'r canlyniadau yw fod agos i dair miliwn o alltudion o bob parth o Ewrop wedi ymdyrru i'r wlad. Y maent yn cynnwys pobl o bob oed, gradd a safle. Yn eu mysg y mae llu mawr iawn o efrydwyr alltud wedi rhuthro i'r Prif Ysgolion. Mae amryw achosion i'r diluw. Mewn llawer o fan drefi Ffrainc gellir byw yn weddol gysurus ar lai o arian na'r swm y rhaid ei gael ym Mhrydain: ac y mae degau o filoedd o Saeson a ddugpwyd i dylodi gan y rhyfel wedi ymfudo i Ffrainc. Y prif achos, modd bynag, yw y galwad am weithwyr. Cafodd Ffrainc Alsace-Lorraine yn ol i'w meddiant ar ol gorchfygu'r Ellmyn. Dyma un o'r talaethau cyfoethocaf mewn glo, haiarn a meteloedd ereill; ac y mae gallu trydan (a gynhyrchir gan rodau dwr) wedi ei ddarpar ar raddfa eang. Eisioes y mae Ffrainc yn myned i gystadlu yn egniol a pharthau gweithfaol Prydain yn marchnadoedd y byd. At y ffatrioedd newyddion y mae dylifiad gweithwyr o bob rhan o'r cyfandir. Yn eu plith y mae nifer mawr o Rwsiaid sydd yn dianc allan o gyrraedd gormes y *Soviet*: ac Eidalwyr, sydd yn methu goddef gormes Mussolini. Mae'r effaith ar wleidiadaeth Ffrainc yn anodd ei ddeall; ac heb ddeall, sut y gellir proffwydo? Ond y mae llawer darogan wr yn rhagfynegu drycin.

* * *

Pa beth fydd effaith peiriannau, yn y pendraw, ar fywydau dynion yn "y byd isoerawl hwn"? Dywed Azari, ysgrifennydd y "*Movimento Futuristo*" (Mudiad y Dyfodolwyr) yn yr Eidal mae tynged y Peiriant yw bod yn Waredydd i ddynolryw rhag pob caledwaith slafaidd, rhag tylodi, a rhag unrhyw ymryson rhwng haenau cymdeithas." Yn ei farn ef, bydd peiriannau, cyn hir yn gwneyd holl waith caled y byd. bydd gan ddynion wedyn, ddigon o hamdden i ymroddi i fwynderau byd y meddwl a'r enaid. Eisioes ceir peiriannau at rifo a chyfrif sydd drech

* Tybed yr awgryma Yr Ymofynnydd.—(Gol.)

na'r mathemategwyr galluocaf. Eisioes ceir peiriannau i ganu a siarad, modd y gellir eu clywed ben draw'r byd. Aeth Azari ym mhellach. Dadganai fod i beiriannau rywfath o enaid; fod rhai dynion yn eu camdrin; ac fod eisiau sefydlu Cymdeithas at Atal Creulondeb at Beiriannau. Beth am y rhai sy'n gorlwytho *Motor Bikes*?

* * *

Serch fod Azari yn ymollwng i ddigrifwch, y mae cynnydd yr oes hon mewn peirianwaith yn beth i synnu ato. Y prif beth efallai yw yr awyrlongau a'r peiriannau hedfan. Nid oes prin ugain mlynedd wedi myned heibio er's pan ddechreuodd y cyfnod newydd; ac eisioes y mae'r hyn a wnaed braidd yn wyrthiol. Yr ydys wedi croesi Mor y Werydd dro ar ol tro. Yr ydys wedi hedfan dros y tir dair mil o filldiroedd heb ddisgyn. Yr ydys wedi teithio gyda chyflymder dros 200 o filldiroedd yr awr. Yr ydys wedi esgyn i'r entrych filoedd o droedfeddi yn uwch na mynyddau uchaf y ddaear. Pwy fydd y cyntaf i hedfan i'r lleuad? Ai Ysgotyn o Aberdeen, ynte Cardi o Aberporth?

Efallai fod rheoli tyfiant planhigion yn beth pwysicach na dyfeisio peiriannau neu hedeg i'r lleuad. Nid yw dynion ond megis dechreu gwybod sut i drin y tir a chodi cnydiau defnyddiol, er eu bod wedi "chwilibawan" llawer er's miloedd o oesau.

Peth sydd wedi tynu sylw yn ddiweddar yw y ffaith fod llawer o blanhigion tramor, yn llawer mwy defnyddiol ar ol eu trawsblannu i'r wlad hon. Mae sail i gredu fod y byd ar fin darganfyddiadau synfawr ynglyn a llysiau a phlanhigion. Yr ydys yn chwilio yn ddyfal am blanhigion y gellir cael cnwd blynyddol ohonynt at wneyd papyr, hefyd at ddistyllio gwirod cyfaddas at yrru peiriannau motor yn lle petrol. Ym Mhrydain, fe fu chwyldroad mewn ffermwriaeth wedi darganfod maip at borthi anifeiliaid; ac yr ydys yn darogan ein bod ar fin gweled chwyldroadau cyffelyb. Yn Awstralia, a gwledydd ereill, a mae llawer math o blanhigion na wyr neb mo'u gwerth: ond nid anodd credu y gallent fod yn dra defnyddiol fel ymborth i ddynion neu fwystfilod neu at ryw ddibenion gwerthfawr yn y celfyddydau. Mae'r Llywodraeth newydd roi 20,000p. i Reolwyr Gerddi Kew er mwyn hyrwyddo ymchwil, —swm cymharol fychan at waith mawr. Cotwm, rubber, a chorsennau siwgr sydd i gael y sylw cyntaf. Pwy sydd yn myned i chwilio i gyfrinion brwyn, ysgall, rhedyn a gwryg Cymru? Lol! medd Shon Credu Dim. Paid a bod yn rhy sicr yn dy amheuaeth, Shon bach.

VINDEX.

# *Pobl Sir Gar.*

SIR GAERFYRDDIN a olygaf wrth "Sir Gar." Y mae i "Sir Gar" diriogaeth eang—hi yw'r mwyaf o Siroedd Cymru; a lluosog yw ei phoblogaeth. Wrth y pennawd uchod, fodd bynnag, dim ond cyfran fechan o bobl y Sir a olygaf. Gŵyr pobl Capelygroes—rhai ohonynt o leiaf, beth a olygaf wrtho. Ie, rhai o honynt: y mae'r mwyafrif o'r genhedlaeth bresennol yn anwybodus o'i ystyr. Cymharol ieuanc yw'r gynulleidfa bresennol; ac y mae'r cenedlaethau a gofiai'r adeg y cyfeirir ati yn y llith a ganlyn wedi diflannu ymron yn llwyr. Y mae'r gynulleidfa wedi mynd tan gyfnewidiad mawr iawn hyd yn oed tu fewn i dymor fy ngweinidogaeth i—rhyw ddeg ar hugain (ychydig yn llai) o flynyddoedd. O feddwl am hyn pwy noson, euthum ynghyd a chyfrif yr aelodau a fu farw er haf 1899: a braidd na theimlais ryw fesur o ddychryn o feddwl mor lluosog oeddynt. Gwnai'r nifer gynulleidfa luosog, lewyrchus. Dynion a benywod oeddynt y mynwesaf deimladau cynnes iawn attynt. Dynion a benywod ffyddlon oeddynt, a ddug bwys a gwres eu dydd i gadw'r achos i fynd; ac erys eu coffa, imi, yn wyrddlas ac annwyl. Yn sicr, "un genhedlaeth a â ymaith, a chenhedlaeth arall a ddaw"; dyna hanes holl oesau'r ddaear.

Beth, ynte, a olygaf wrth y pennawd—"Pobl Sir Gar"? Hyd ymhell heibio i hanner y 19eg ganrif, deuai nifer luosog iawn o fobl o blwyfi Pencarreg a Llanybydder i Gapelygroes yn weddol gyson—rhai bob pythefnos, craill bob mis, yn ol y pellter. Yn y bore y deuent—erbyn naw yn yr haf, hanner awr wedi naw yn y gaeaf; ac nid oedd son am awr nac yn ol nac ymlaen bryd hynny. Dyma rai o'r teuluoedd—Castell-Elwyn, Frowen, Tower Hill, Blaenbydernyn, Banc, Llidiadnennog, Llethr, ac yn y blaen. Heblaw teuluoedd cyfain, deuai cryn nifer o bersonau unigol. Nid yw'r uchod, yn ddiau, ond cyfran o'r teuluoedd a ellid eu henwi; eithr dyna'r rhai a ddaw i'm cof yn awr. Cofiaf rai o honynt yn dda: ond yn bennaf teuluoedd y Castell a'r Frowen.

Pan oeddwn blentyn, arferwn fynd i'r Capel fore Sul gryn dipyn cyn yr amser, er gweld "pobl Sir Gar" yn dod. Gelwid arnaf yn aml i ddal pen ceffyl i un neu arall o honynt, a charwn y swydd; tybiwn, yn awr, ei bod yn gryn anrhydedd imi gael gwneud hynny. Aml i dro y bum yn dal pen ceffyl i'r diweddar Dafydd Jones o'r Castell: fe'm cyfarchai'n serchog bob tro y ceisiai gennyf i wneud hynny. "Da machgen i," arferai ddweyd; "be wnawn i hebot ti"? Hefyd, cydnabyddai fy ngwasanaeth yn aml mewn modd

mwy sylweddol na thrwy ganmoliaeth. Ac oblegid hyn, deuthum i fynwesu teimladau gwresog iawn tuag ato a meddwl yn uchel am dano. Ar ol i mi dyfu i fyny, deuthum i ddeall y perchid ef hefyd gan gylch eang ei adnabyddiaeth ar gyfrif ei ddynoliaeth ardderchog. Dyma englyn iddo o gyfansoddiad E.O.J.* —bardd o fri a drig yn rhywle ar fynydd Pencarreg :

Gŵr wnai i bawb ei garu—a didwyll
Undodwr anwylgu ;
Am un â'r gwan i gyfrannu
Nid oedd gwell Jones y Castell cu.

O ran a wn i, y mae cynghanedd yr englyn yn ddiwall ddigon. Parthed ei gynghanedd, fodd bynnag, gadawaf y gorchwyl o dynnu'r llinyn mesur drosto i feirdd dyfiryn y Ranell. Nid oes a fynnwyf fi ond a chywirdeb ei ddisgrifiad o'r gwrthrych. Sut un oedd Dafydd Jones ? Dyma'r ateb yn yr englyn. Nid drwg, onite ?

Deuai rhai ohonynt ar geffylau, eraill mewn cerbydau, eraill eto ar draed. Deuai amryw yn gwmniau, eraill yn un ac un, fel y gallent. Ar ol cyrraedd o honynt i'r lle, dodent eu ceffylau yn yr ystabl yn ymyl y Capel. Yr oedd yr ystabl, yn aml, mor llawn, fel nad oedd ond prin ddigon o le iddynt. Sut y cytunent ? ebe rhywun. Wel, fe dorrai ffrwgwd allan weithiau. Da y cofiaf fel y'n difyrrid ni blant o glywed "y ceffylau'n cwmpo mas a'i gilydd," ys dywedem. Eithr ni chai'r un o honynt un niwed gwerth son am dano ; yn wir, prin oedd eu siawns i niweidio'u gilydd, gan nad oedd digon o le i un o honynt i godi'i droed i roddi cic i un o'r lleill. Felly, pan dorrai ffrwgwd allan, rhaid a fyddai iddynt wneud y detnydd goreu a allent o'r dannedd. Y mae ceffyl a dyn yn debig iawn i'w gilydd yn hyn o beth : pan gyffroi'r pobun o honynt, mynnant ddial eu llid yn rhywfodd—naill ai trwy gicio neu trwy ddefnyddio dannedd (y tafod yn achos y dyn). Eithr credaf mai'r ceffyl yw'r mwyaf diniwed o'r ddau. Ar ol i'r ceffyl roddi cic neu gnoad, dyna'r cwbl ar ben ; ond pan dyrr ffrwgwd allan rhwng dyn a dyn, nid oes derfyn ar ddial o honynt eu llid y naill ar y llall. Ac eto, dywedir bod dyn yn uwch na'r ceffyl. Braidd na'm temtir, weithiau, i ameu cywirdeb yr honiad.

Ar ol dodi ohonynt eu ceffylau yn yr ystabl, prysurent i fynd i mewn i'r capel, ac ymdaflent i'r gwaith o addoli a'u holl enaid. Gwrandawyr ardderchog oeddynt : tybiwn, o sylwi arnynt, na adawent i gymaint a gair i fynd i golli. Ac nid oeddynt yn ol o amlygu'u cymeradwyaeth pan wnai'r pregethwr ryw sylw a'u bodlonai. Nid trwy'r "Amen" yr amlygent eu cymeradwyaeth : yn wir, ni chofiaf imi erioed glywed y gair "Amen" tu fewn i

* Ai nid D.O.J. ?—Gol.

furiau Capelygroes fel arwydd o gymeradwyaeth ; yn sicr, nis clywais yn dod o enau un o gynulleidfa Capelygroes. Esgymunbeth yw'r gair " Amen " i gynulleidfaoedd Undodaidd Ceredigion. Pair hyn i bregethwyr dieithr, pan ymwelant ag un neu arall o'n capeli, i dybied mai pobl oer a gwrandawyr gwael yw Undodiaid Ceredigion. Casgliad anghywir iawn yw hwn. Fel rheol, gwrandawyr ardderchog yw'r Undodiaid. Ar ol dyweyd hyn, fodd bynnag, dywedaf ymhellach—nad pell ydwyf o hoffi'r arferiad o amlygu cymeradwyaeth trwy gyfrwng yr " Amen "—tu fewn i derfynau rhesymol. Dyry i'r pregethwr ryw arwydd y gwrandewir arno ac y gwerthfawrogir a ddywed. Nid wyf am i bobl Capelygroes a Chribyn ddeall y sylw uchod fel awgrym iddynt hwy i weithredu yn ei hol—tra phery fy ngweinidogaeth i, o leiaf. Yr wyf am derfynu fy ngweinidogaeth—yr ychydig sydd yn ol o honi—mewn tawelwch. Nid oedd " pobl Sir Gar," fel y sylwyd, yn ol o amlygu'u cymeradwyaeth—yn eu ffordd eu hunain. " Dyna dda, wir ! " neu " Da iawn, wir ! " ; neu, os digwyddai'r pregethwr wneud rhyw sylw a dueddai oglais y teimlad yn fwy nag arfer, drwy'r wen foddhaus a ymdaenai dros eu hwynebau, efallai (ar rai achlysuron) drwy chwerthiniad iachus. Hawdd iawn ydoedd deall y caent gyflawn dal am ddod o honynt yr holl ffordd. Ie, yr holl ffordd !

Rhwng y Castell a'r Frowen a'r Tower Hill a Chapelygroes y mae (o leiaf) tuag wyth milltir. O'r Banc a'r Llethr y mae ychydig yn rhagor. Efallai bod lleoedd eraill pellach eto : eithr ni wn i am danynt.

Fel y mae pethau wedi newid ! Y mae " pobl Sir Gar " a fynychai Capelygroes adeg fy mebyd i wedi diflannu, a chenhedlaeth arall wedi codi yn eu lle. O'r genhedlaeth sydd yn awr, dim ond dau deulu sy'n para'n ffyddlon—teuluoedd Castell a'r Tower Hill. Y mae pen-teulu presennol y Castell (Griffith Jones) yn fab i'r Dafydd Jones a enwyd eisioes ; ac y mae ef a'i briod hawddgar a'i dri phlentyn siriol yn para'n ffyddlon. Merch y Castell oedd y diweddar Mrs. Davies, o'r Cribor ; hithau hefyd, hyd y gallodd, yn ffyddlon yn y Llwyn ; ac y mae ei phlant yn dilyn ei hol yn ardderchog—yn y Llwyn y rhan fwyaf ohonynt, rhai ym Mrondeifi, ac un yng Nghapelybryn. Y mae teulu presennol y Tower Hill (Griffith ac Evan Howells) yn wyrion i Griffith Jones o'r Frowen—hwythau hefyd yn para'n ffyddlon. Er mwyn yr anghyfarwydd, sylwaf—mae dau frawd oedd Dafydd Jones y Castell a Griffith Jones y Frowen. Y mae disgynyddion teuluoedd y Frowen a'r Banc (gyda'r un eithriad a enwyd) wedi ymddieithrio—y cyntaf wedi trosglwyddo'u serch i Frondeifi, yr ail yn rhy bell (er, gyda llaw, mai'r un yw'r pellter yn awr a chynt). O deulu lluosog y Frowen, nid oes yn fyw ond un mab a dwy ferch—Griffith Jones o

Frynmanalog, Mrs. Thomas, Pantnewydd, ac un arall na chofiaf ei henw yng nghymydogaeth Nantgaredig. Y mae dau o feibion y Banc yno eto, a'r ferch yng Nghilwennau ger Llansawel. Er wedi torri eu cysylltiad a hen fangre gysegredig eu tadau, credaf—o leiaf, gobeithiaf—nad yw eu serch ato wedi llwyr oeri.

Gwelir o ddarllen yr uchod, y fath le amlwg a lenwir gan ddisgyn-yddion y ddau deulu hyn—Castell a Frowen—ym mywyd ein Heglwysi a ennwyd eisioes.

O droi fy ngolwg tua'r gorffennol, fel y gwnaf pan gaf ambell orig o hamdden, daw'r hen fobl hyn i'm cof, a phair eu ffyddlondeb imi ryfeddu ac edmygu. Clywais am Fethodistiaid yn cerdded i Langeitho o barthau pellaf Sir Benfro a Sir Gaer. Teithiai'r hen Undodiaid, hefyd, bellter mawr iawn i'w dewis addoldai. Y mae hyn ymhlith y pethau a fu i raddau pell iawn. Eithr na feddylied neb fod yr hen dân a ysai'r tadau wedi llwyr oeri. Camsynied a wna y sawl a dybia hynny. Ond y mae treigl amser wedi dwyn gydag ef gyfnewidiadau mawr iawn. Yn yr amseroedd cyntaf a gofiaf, deuai nifer luosog i Gapelygroes o ardaloedd Cwrtnewydd, Cribyn, Llanbedr, a lleoedd eraill. Wedi hynny, daeth Brondeifi a Chapel-ybryn i fod, ac effeithiodd hyn yn fawr ar gryfder y gynulleidfa. Erbyn hyn, gyda'r ddau eithriad a enwyd, cynulleidfa leol, cyfyngedig i'r gymdogaeth o gylch y capel, yw'r gynulleidfa. Eithr nid yw'r gynulleidfa bresennol fymryn llai gwresog dros eu hachos na'r tadau: a pherthyn iddi haen gref o waed ieuanc a ddyry imi obaith am ei dyfodol.

D.E.

# *Tw'r Ddrama.*

## (GAIR BYR).

DIOLCH am y Symposium. Pan welais fy enw wrth y llythyr fe barodd hyny i mi holi ychydig arnaf fy hun, pa un a oeddwn wedi ysgrifennu'r llythyr neu beidio, ond wedi ei ddarllen yn fanylach, gwelais y gair "ofnatsan," a phenderfynodd hyny y mater ar unwaith, mai nid myfi a'i hysgrifennodd. Yr oedd y llythyr mor agos at y gwir, ag eithrio'r gair a nodais, fel y daeth i'm meddwl ar unwaith y ddrama "Jim, the Penman."

Sicr yw nad oes eisieu i Olygydd a all gyfansoddi "Symposium" o'r teip hwn ofni dim parthed ei gyhoeddiad.

A chan i'r Golygydd awgrymu pwnc sydd o ddiddordeb i mi, teimlais mai gwell fyddai ysgrifennu gair arno, a pheidio oedi, rhag ofn na ddoi y siwrne y cyfeiria'r Golygydd ati byth i'm rhan, a phe deuai, fe fyddai perigl i glefyd y mor fod yn fwy o rwystr i ysgrifennu ato, na'r anhawsterau sy'n bodoli heddiw ar y tir. A thueddir fi yn wyneb hyn oll i awgrymu, os oes un o ddarllenwyr Yr Ymofynnydd a rhyw awydd ynddo i ysgrifennu Drama fechan ar gynllun yr hen "Morality Plays" dyma bwnc rhagorol iddo, sef, un ffurf ar dw rhyddid crefyddol yng Nghymru.

Yr awgrym yn y llythyr ydoedd ar i mi ysgrifennu erthygl "yn dangos y golled i grefydd oherwydd i'r Eglwys ollwng gafael o'r Ddrama a'i chysylltiad a'r eglwys gynt yn yr hen 'Fystery Plays'."

Anodd drosben ydyw penderfynnu hyn. Nid yw'r ffaith o'r "hyn a allasai fod" yn sail gadarn i adeiladu arno, yn fwy nag yw proffwydo beth a ddigwydd yn y dyfodol pell. "Speculation" amheus yw'r ddau—ond credaf y gallwn fentro ar un peth a hwnw ydyw, inni golli traddodiad y Llwyfan. Bu adeg pan edrychwyd ar y "Stage" gyda dirmyg sanctaidd, ac nid lle mo'r chwareudy i aelod crefyddol ei fynychu. Nawr mae'r teimlad hwn bron wedi diflannu, a cheir parti Drama yn perthyn i nifer luosog o gapeli ein gwlad.

Hefyd, ceir erbyn heddiw Undeb y Ddrama Gymreig sydd a'i nod i gefnogi Drama yng Nghymru. Hyn yw'r anhawster heddiw, pan geisia Cymro ysgrifennu drama rhaid iddo gymryd cynllun y Sais, a chondemnir ef am hynny trwy ddatgan mai efelychiad yn unig yw ei waith. Nid yw'r condemniad yn hollol deg. Nid oes gan y Cymro draddodiad Cymreig i'w helpu yn y gwaith hwn, ac y mae ffurf y ddrama Saesneg yn eithaf cyfarwydd inni erbyn heddiw. Mae i bob celfyddyd ei nodweddion cyffredinol, neillduol a phersonol. Y gampwaith ydyw ysgrifennu drama Gymreig fydd yn seiliedig ar y nodweddion cyffredinol hyn ac eto'n portreadu y bywyd Cymreig.

Ar y llaw arall, mae gan y Sais draddodiad helaeth i'w helpu ac fe all olrhain y tw o'r hen "Forality Plays" hyd yr oes bresennol.

Ymhellach, mae'r Eglwys wedi colli un o'r ffurfiau goreu i gyflwyno ei nheges i'r werin. Braidd na ellir dweyd mai portreadu rhyw agwedd ar fywyd ar y llwyfan, yw'r ffurf fwyaf effeithiol i gyrraedd y bobl.

Beth a all fod yn fwy rhesymol a dyrchafedig fel ffurf o adloniant na drama dda? Gan i'r Eglwys golli ei gafael ar y Ddrama, y canlyniad fu i'r Ddrama ddirywio a cholli ei neges gyntefig. Credwyd oherwydd hyn fod yr Eglwys yn delio a phethau cysegredig a'r chwareudy a phethau anghysegredig, a thrwy hyn fe gychwynwyd y Ddrama.

Fe fydd llawer un yn cefnogi'r Oratorio, ond yn condemnio Drama, heb wybod mai rhagflaenydd y ffurf yma o gerddoriaeth yw yr hen "Miracle Plays." Os yw yr Oratorio dan nawdd yr Eglwys fe ddylasai'r Ddrama fod hefyd oherwydd yr Eglwys roddodd ddechreuad iddi.

E. R. Dennis.

# *Cyhoeddiad Newydd.*

Nid priodol yw gadael i ymddangosiad Cylchgrawn newydd y Gymdeithas Undodaidd De-Dwyreiniol Cymru fyned heibio heb air o groeso a chefnogaeth. Amcan y misolyn bychan hwn yw rhoi o fis i fis ychydig o hanes Eglwysi'r cylch a thrwy hynny eu dwyn yn nes at ei gilydd ac ennyn fwy o ysbryd cydymdeimlad a chydweithgarwch. Y golygydd yw y Parch. H. H. C. Jones, B.A., Caerdydd, ac fe ddengys y ddau rifyn cyntaf ei fod wedi ymgymeryd a'r gwaith gyda'r bwriad o'i wneud yn llwyddiant.

Mewn ystyr ymddengys y mater pwysicaf ar y dudalen gyntaf. Ceir yma enwau'r Eglwysi y sydd yn gynwysedig yn y Gymdeithas. Y mae sylwi arnynt yn achosi cryn dipyn o ddifrifwch ac anesmwythyd meddwl. O'r pymtheg a enwir dywedir fod dwy o honynt—sef Cwmbach a Dowlais—eisioes wedi eu cau. Cof gennyf nad oes amser mawr er pan adroddid yr un hanes truenus am Clydach Vale a Newport.

Ychydig flynyddau yn ol yr oedd achosion gweddol lewyrchus yn yr oll o'r pedwar ac erbyn heddyw y mae dau o honynt wedi diflannu yn gyfangwbl a'r ddau arall, ofnwn, wedi myned y tuhwnt i adferiad. Ac i wneud y sefyllfa yn waeth nid oes yr un achos newydd wedi ei gychwyn yn y cylch o fewn i derfynau yr un cyfnod. Clywais leygwr Undodaidd o barch a dylanwad yn dweyd y dydd o'r blaen ei fod o'r farn y bydd trigolion Cymru cyn pen hanner canrif wedi dyfod yn Gatholiciaid Rhufeinig ar y naill law ac yn Undodiaid ar y llaw arall. Ni allwn lai na edmygu ei ffydd a'i frwdfrydedd ond teimlwn yn wir amheus o wirionedd ei broffwydoliaeth. Ni ellir gwadu nad yw Catholiciaeth yn lledaenu—hyd yn oed yng Nghymru. Ymddengys ei bod wedi sefydlu nifer o Eglwysi newyddion yn ein plith yn wir ddiweddar. Nid oes dim a lwydda meddai'r hen ddywediad fel llwyddiant. Y mae yn adlewyrchiad anheilwng ar ein sel a'n ffyddlondeb ni fel Undodiaid ein bod yn cwtogi cylch ein gweithgarwch yn lle ei feithrin a'i ledaenu yn barhaus.

Ni chredaf o ran fy hun y dylai Clydach Vale a Newport fod wedi eu cau ac os nad yw yn rhy ddiweddar dylid gosod pob ymdrech ar droed i gadw y ddau arall a enwyd yn agored.

O sylwi ar y dudalen gyntaf eto fe welir nad oes ar gyfer y tri capel ar ddeg sydd yn aros ond saith gweinidog yn unig. Y mae yn wir fod yna leygwyr yn gofalu am Wick ac fod yna nifer luosog o bregethwyr lleygol ereill at wasanaeth yr Eglwysi gwag. Pob parch iddynt am eu gwasanaeth a'u hunanaberth. Eto i gyd ni ellir dweyd fod y sefyllfa yn foddhaol. Nid yw y gyfundrefn geir yn Ceredigion yn bodoli yn y chwaer Gymdeithas. Yn y cyntaf y mae'r arferiad wedi bodoli er y cychwyn bron i bob gweinidog ofalu am ragor nag un Eglwys. Trueni na welai Undodiaid De-Dwyreiniol Cymru eu ffordd yn glir i fabwysiadu cynllun cyffelyb. Gresyn yw meddwl nad oes yn y Rhondda ar hyn o bryd yr un gweinidog sefydlog. A mae'r un peth yn wir am Ferthyr a Phenybontarogwr a'u cylchoedd. Yn wyneb yr amgylchiadau presennol rhaid casglu mae'r unig ffordd i sicrhau gweinidog yn y blynyddau nesaf fydd i ddwy Eglwys gymydogaethol o leiaf uno a'i gilydd. Gwell hyn na gadael i ardal boblogaidd gyfan wanhau yn ddiobaith. Y mae cyflwr presennol Undodiaith yng Nghymru yn achosi pryder i ereill yn ogystal ag i ni ein hunain—o bosibl yn fwy felly. Ychydig ddyddiau yn ol ymddangosodd geiriau yn un o'n newyddiaduron dyddiol pwysicaf i'r perwyl hwn : " Meddyliaf am y golled fawr achosir i fywyd crefyddol a meddyliol Cymru gan fychander rhif aelodau ac Eglwysi yr Undodiaid. Pan y darllenwn ychydig amser yn ol yr Apel am gymorth yn Yr Ymofynnydd synwn fod llawer o fannau ym Morgannwg bellach heb gapelau lle yr oeddynt unwaith yn llewyrchus ac yn allu er cynnydd mewn cymdeithas. Y mae gwir angen am yr un gallu yng Nghymru heddyw. Tybed nad oes gan Undodiaith Cymru ei chenhadon mwyach ? " Cwestiwn ofynir y tu allan i'r ddiadell yw hwn. Edrychir am ateb atom ni y rhai ydym oddi fewn. Tueddir ni i obeithio y bydd i'r gronfa newydd amcenir ati y ddwy flynedd nesaf yma symbylu bechgyn ieuainc o allu a brwdfrydedd i ymgymeryd a'r gwaith gweinidogaethol fel y byddo i ddyfodol yr achos fod o leiaf yn deilwng o'r hyn fu yn ei amser mwyaf blodeuog yn y gorffennol.

Ond gadawer i ni droi unwaith eto at y Cylchgrawn. Pleser digymysg yw gweled fod Highland Place wedi croesawu gweinidog newydd. Fel merch i'r Parch. Wilfrid Harris y mae Miss Constance Harris eisoes yn adnabyddus i'r enwad ac yn rhinwedd yr hyn y mae wedi gyflawni fel efrydydd a chenhades gartrefol y mae wedi ennill enw parchus iddi ei hun a disgwylir llawer oddiwrthi yn ei chylch newydd.

Da hefyd yw gweled fod y Parch. W. J. Phillips wedi cael adferiad iechyd digonol i ymgymeryd a'i waith o'r newydd yn Nottage. Gweithiwr da a ffyddlon yw Mr. Phillips wedi bod am lawer o flynyddau a hyderwn yn fawr y caiff nerth i wasanaethu'r Eglwys a'r Gymdeithas am gryn amser i ddyfod.

Da hefyd yw gweled cynifer o arwyddion bywyd a chynnydd yn Caerdydd, Abertawe a Hen Dy Cwrdd Aberdar. Y mae'r Parch. E. R. Dennis wedi gwneud enw nid bychan iddo ei hun yn y byd dramayddol yn ddiweddar. Symudiad cymharol newydd yw'r ddrama yng Nghymru, ond a barnu oddiwrth yr arwyddion presennol y mae iddo ddyfodol pwysig a dylanwadol. Felly y mae yn fater i ymfalchio o'i herwydd fod un o'n gweinidogion ni yn chwareu rhan mor flaenllaw ynddo a Mr. Dennis.

Newydd tarawiadol arall yn y Misolyn yw fod yma bedwar myfyriwr ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer y weinidogaeth Undodaidd yng Nghaerfyrddin. Mae'n amheus a fu yma gymaint ers blynyddau o'r blaen. Bachgen ieuanc addewidiol wedi troi oddiwrth y Bedyddwyr yw un o honynt. Gweinidog parchus gan yr enwad hwnnw yng Ngogledd Cymru yw ei dad. Bydded i ni fel Undodiaid gymeryd diddordeb yn y bechgyn hyn a dangos ein gwerthfawrogiad o'i sel dros ledaeniad yr

achos drwy roddi gwahoddiad iddynt lanw ein pulpudau mor aml ag yw yn bosibl.

Y mae i'r Cylchgrawn ei le a'i swyddogaeth yng Nghymru heddyw pe bai yn unig ond dwyn i sylw y fath faterion ag y cyfeirir atynt yn y man hwn. Eiddunwn iddo ef a'r Golygydd bob llwyddiant yn eu cenhadaeth. Fel ffrwyth disgwyliwn am fwy o fywyd a thyfiant drwy'r Gymdeithas yn gyffredinol.

# *Marwgofion.*

Rhagfyr 26, 1927, yn fythefnos oed, David, baban i David ac Elizabeth Jones, Maesymeillion. Claddwyd y dydd Iau dilynol ym mynwent Pantdefaid, y gweinidog yn gwasanaethu. "Gadewch i blant bychain ddyfod ataf fi."

Ionawr 7, yn 75 mlwydd oed, Mary Davies, annwyl briod Mr. Evan Davies, Plygyrhiw, Llandysul. Yr oedd yr ymadawedig yn enedigol o gymdogaeth Bwlchyfadfa ac yn hanu o deulu adnabyddus yn yr ardal hono. Gwelodd lawer tro ar fyd, ond edrychai hi ar ochr oleu y cwmwl yn wastad. Y gair caredig ddaethai dros ei gwefusau, a chroesaw serchog yn ei hwynepryd. Bu hi a'i theulu yn ffyddlon ym Mwlchyfadfa, ac yn y Graig, Llandysul wedi hynny. Gadawodd mewn galar o'i cholli, briod, a phedwar o blant, heblaw perthynasau ereill. Y dydd Mercher dilynol hebryngwyd ei rhan farwol i fynwent Bwlchyfadfa. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. Arthur Thomas, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. R. Morris a D. Rhydderch, Llandysul.

Dydd Mawrth, Ionor 17, bu farw Mrs. D. M. Thomas, 14, Illtyd Street, Treorci, yn 67 oed. Bu yn nychu am rai wythnosau ac am beth amser cyn y diwedd cafodd gystudd caled. Yr oedd Mrs. Thomas yn un o ffyddloniaid Eglwys Glanrhondda a cholled fawr a geir ar ei hol. Nid er dim y byddai'n colli gwasanaeth ac nid oedd neb yn barotach na hi i wneud ei rhan dros yr achos, a hynny gyda llawenydd. Bu'r angladd dydd Sadwrn, Ionor 21, a chladdwyd ym mynwent gyhoeddus Treorci. Daeth nifer o gyfeillion ynghyd er fod y tywydd yn arw iawn. Estynwn ein cydymdeimlad dyfnaf i Mr. Thomas a'r plant yn eu gofid, hiraeth a'u colled. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parch. E. R. Dennis.

Chwefrol 10, yn lled annisgwyliadwy Watkin Davies, Tanfron, Capel Dewi, Llandysul yn 87 oed. Bu'n byw am flynyddoedd mewn ty o'r enw Pentwr—heb fod ymhell o'i gartref olaf—ac wrth yr enw Watkin Davies, Pentwr yr adnabyddid ef gan ei hen gydnabod. Saer coed oedd wrth ei alwedigaeth. Yn ystod ei fywyd, fel seiri gwlad yn gyffredin, bu raid iddo droi ei law at bob math o waith saer ond ymhyfrydai efe nid mewn gwaith cyffredin ond mewn gwaith ag oedd yn gofyn am ei orau—gwaith ag oedd yn gofyn crefft. "Saer cywraint" oedd efe ac wedi cael o hyd i "bren ni phrydra" megis y pren deri a'r "pitch pine" medrai droi allan waith graenus a phrydferth rhyfeddol. Enillodd iddo ei hun enw fel saer eirch. Cymerai bleser tuhwnt mewn gwneud cadeiriau destlus, trin ffyn, etc., a phan gai ei alw i godi adeilad sylweddol yr oedd yn ei elfen. Efe adeiladodd gapel coffadwriaethol Llwynrhydowen; capel y Graig, Llandysul, a chapel presennol Bwlchyfadfa, ac y mae graen ar yr oll o'r gwaith. Hawdd canfod mae "saer cywraint"

a chrefftwr fu'n trin a throsi'r coed. Credwn mai iddo ef, ac hefyd i ereill, ei orchestwaith oedd Capel coffa y Llwyn. Teimlai falchder o'i waith yma. Yr oedd ganddo gof cywir iawn a medrai fod yn ddifyr mewn ymgom a chwmni. Mwynhaodd iechyd da ar hyd ei oes faith. Ni wyddai beth oedd cadw gwely. Cododd hyd yn oed y dydd y bu farw a bu farw'n dra sydyn a hollol ddiboen. Claddwyd y Mawrth dilynol ym mynwent Llwynrhydowen a chafodd angladd parchus iawn. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins, T. Arthur Thomas a W. E. Baker (E.). Gadawodd i gwyno ei golli dri mab, un ferch, wyrion a llawer o gyfeillion.

Ar yr 16eg o Chwefrol, yn 40 oed, bu farw Esther, annwyl ferch David Lewis a'r diweddar Hannah Lewis, Maeshedydd, ger Blaencwrt, plwyf Llanwenog. Hyd tua blwyddyn neu ragor yn ol, bu iddi iechyd da a chyfansoddiad cryf; ond er hynny nychodd yn araf, a bu farw ar ol cystudd caled o ychydig ddyddiau. Gadawodd mewn hiraeth ar ei hol dad, chwaer, a brawd, ynghyd a pherthynasau eraill. Cydymdeimlir yn fawr a'r tad yn ei unigrwydd a'i brofedigaethau diweddar—colli, yn ychwanegol at yr uchod, briod ac wyr tu fewn i flwyddyn o amser. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Capelygroes dydd Sadwrn dilynol, pryd y daeth nifer luosog ynghyd i dalu iddi'r gymwynas olaf; oblegid yr oedd yn un a hoffid yn fawr gan gylch ei hadnabyddiaeth. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle.

# *Nodion yr Eglwysi.*

CAPEL Y GROES.—Dechreuwyd tymor gaeaf y *Women's League* trwy wledd o de a roddwyd gan Miss Jenkins, Blaenwaun-uchaf. Daeth nifer luosog ynghyd, a chaed noson ddifyr ac adeiladol. Y mae gwedd lewyrchus ar y cyfarfodydd.—— Yn y Cyfarfod Cystadleuol a gynhaliwyd yn y lle uchod yn ddiweddar, cyflwynodd Mr. John Evans, Baily, wobrwyon i'r plant a gadwodd yr Ysgol Sul yn ddifwlch yn ystod y flwyddyn ddiweddaf. Diolchwyd iddo yn gynnes am ei garedigrwydd.

LLWYNRHYDOWEN—Nos Fercher, Ionor 18, cafwyd "Social Tea" yn y lle hwn, wedi ei drefnu gan ganghen Cymdeithas y Benywod. Dyma un o'r ffyrdd ag y mae bonedd-igesau yma wedi fabwysiadu er cynorthwyo trysorfa'r Eglwys. Yr oedd yn noson ryfeddol o arw, er hyny daeth nifer luosog ynghyd—o bobl mewn oed a phlant. Nid yw dyddiau'r ffyddloniaid ddim wedi darfod. Trodd y noson allan yn un ddifyr a llwyddianus hollol ac mae llawer o'r clod am hyny yn ddyledus i'r brodyr doniol Mri. Tom Jones, Ffynnonowen a Evan Davies, Llaindelyn, Talgarreg.

---

DYLED "YR YMOFYNNYDD."

Derbyniwyd y symiau a ganlyn tuag at ddileu dyled "Yr Ymofynnydd"—

| | | |
|---|---|---|
| Pantydefaid | ... | ... £10 |
| Graig, Llandysul... | | ... £10 |

Anfoner y casgliadau at yr uchod i—

D. Martin Jones,
Llandysul.

*J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.*

*Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.*

THE AUTHOR OF

# NEARER, MY GOD, TO THEE

**(SARAH FLOWER ADAMS)**

**By H. W. STEPHENSON, M.A.**

*The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn. "Nearer, my God, to Thee."*

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

**Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2**

---

## YOUR CHILDREN'S EYESIGHT IS THEIR MOST VALUABLE POSSESSION.

If you have the slightest suspicion that your child is suffering in any degree from eye-strain, which may be indicated by headaches after a day at school, or by the child poring over a book with its head very close to the page, you should consult a qualified optician who will gladly offer you a candid opinion, and will most certainly not prescribe glasses unless absolutely necessary, after the most careful tests.

**CECIL JONES,** F.S.M.C., F.B.O.A., F.I.O. (London).

Is fully qualified to offer every service for the eyes at his sight-testing rooms, both at

**26, Great Darkgate Street, Aberystwyth** (Telephone 209)

**And at JONES, JEWELLER, LLANDYSSUL.**

---

## IT WILL PAY YOU TO SEE OUR HUGE SELECTION OF WINTER GOODS BEFORE YOU BUY. . . .

# E. LLOYD JONES

# Bradford House, Llandyssul.



## A Complete Banking Service

The Midland Bank offers exceptional facilities for the transaction of banking business of every description through over 1960 branches covering all important agricultural, commercial, industrial and residential districts in England and Wales.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The Branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

# MIDLAND BANK

LIMITED

*HEAD OFFICE: 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C. 2*

Affiliations: Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland; Midland Bank Executor and Trustee Co. Ltd.